



Ysgol Glan y Môr

Bwletin i Rien: Hydref 2015



DYDDIADAU PWYSIG

Hydref

23 Ysgol yn cau am Hanner Tymor
26/10/15 - 31/10/15

Tachwedd

2 Ysgol yn ail gychwyn
17 **Cyfarfod Rhieni/Targeddu Bl 10**
18 Ffair Aeaf
20 **HMS** Dim ysgol i ddisgyblion
24 **Noson Rhieni Bl 8** 3.45 - 5.45

Rhagfyr

1 Clinic Cymorth
2-11 Arholiadau mewnol Bl 11
7 Aseidiadau Interim Bl 7, 8, 9 & 10
22 Eisteddfod Ysgol
22 Ysgol yn cau am wyliau Nadolig
23/12/15 - 04/01/16

Pres at achosion da

Cynhaliwyd diwrnod "Jeans for Genes" ddydd Gwener 18fed o Fedi, ble roedd pawb yn gwisgo dillad eu hunain. Casglwyd £500. Bu disgyblion bl 10 yn Asda efo'i pwcedi ar yr ail o Hydref, casglwyd £220 i Tenovus. Casglwyd £200 tuag at achos y ffoaduriad o Syria drwy gynnal raffl ar y noson wobrwyo.

Cofiwch fod modd i chi brynu **gwisg ysgol** yn uniongyrchol o'r ysgol.

Crys Chwys - £11/13; Crys Polo - £9/12;

Os fydd rhaid i'r ysgol gau mewn argyfwng (e.e. eira a.y.y.b.) Bydd manylion ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd

www.gwynedd.gov.uk

Noson Agored

Cynhaliwyd Noson Agored lwyddiannus iawn i Rien i Blwyddyn 5, 6 a 7, nos 8^{fed} o Hydref.
Diolch am eich cefnogaeth.

Ffair Llyfrau Scholastic

Cynhaliwyd ffair lyfrau llwyddiannus iawn yn y llyfrgell. Gwerthwyd £445.78 o lyfrau ag ati, sydd yn golygu mwy o lyfrau am ddim i'r llyfrgell ysgol. Diolch i Cadi Ellis, Moli Williams, Catrin Evans, Elin Mair Roberts ac Emily Dunwoody o flwyddyn 10 am wirfoddoli yn ystod yr wythnos.



Mari Lois Jones, Lois Evans, Cadi Ellis, Moli Williams, Emily Dunwoody, Elin Mair helpu yn ystod y ffair lyfrau

Llywodraethwyr

Etholwyd Iolo Jones, o Chwilog a Haydn Jones o Lannor, i'ch cynrychioli ar y Corff Llywodraethu. Mi fydd Eryl Parry-Jones o Lannor, yn cynrychioli'r Awdurdod Addysg. Croeso cynnes iddynt oll.

Adran Saesneg

Cafodd Blwyddyn 11 gyfle i ymweld â Venue Cymru, Llandudno ym mis Medi i weld perfformiad o'r ddrama osod An Inspector Calls. Mae hon yn ran o'i gwaith Llen Saesneg ar gyfer eu TGAU. Roedd yn berfformiad arbennig o dda a hynod ddramatic. Mwynhaodd pawb y perfformiad yn arw (yn ogystal â'r ymweliad a McDonald's ar y ffor adref!)

Adran Mathemateg - Cynhadledd "Mathemateg yw eich Dyfodol"

Aeth 28 o ddisgyblion Blwyddyn 11 i'r gynhadledd ym Mangor, 17eg o Fedi. Diwrnod diddorol iawn, fe ddysgodd y disgyblion lawer am y defnydd o fathemateg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn e.e. "Mathemateg mewn jyglo" gan Colin Wright. Trefnwyd y gynhadledd gan Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru.

Grŵp Ffocws Rhieni /

Cynhaliwyd cyfarfod ar Hydref 1af. Diolch i'r rhieni sydd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r grŵp yma eleni. Rhoddwyd sylw i ganfyddiadau'r holiadur a roddwyd i rieni yn ystod tymor yr Haf. Yn ogystal, rhoddwyd sylw i ddiwyg yr adroddiadau blynyddol a gyflwynir i rieni am eu plant. Byddwn yn gweithredu ar yr awgrymiadau a gafwyd yn fuan. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ionawr 20fed am 5.30pm. Os hoffech ymuno â'r grŵp yma cysylltwch â'r Pennaeth.

Enillwyr Loteri Presenoldeb
100% am Fís Medú - Gwobr £10
Cynwal ap Myrddin 7P
Enlli Jones 8R
Alisha Menet 9P
Cerys Studt 10R
Morgan Parry Jones 11P

* * * Da iawn chi * *

Taith Gerdded

Cafwyd prynhawn braf iawn i'r daith gerdded ar Hydref 1af. Casglwyd £2000 erbyn hyn, ond mae nifer o ddisgyblion angen dod â'r arian noddi i'r ysgol. Plis cefnogwch yr ysgol drwy sicrhau bod hyn yn cael sylw erbyn 2il o Dachwedd. Diolch i'r disgyblion sydd wedi dod â'u pres yn barod.

Dyddiad i'r
dyddiadur

FFAIR AFAF
Nos Fercher, Tachwedd 18fed
6.30 y.h

Elw tuag at elusen

MS
Multiple Sclerosis Society
Cymru Wales

Cyfle da i siopa at y Nadolig.

Mae modd i fusnesau lleol logi bwrdd yn y Ffair, am fwy o fanylion ffoniwch yr ysgol ar 01758 701244 neu e-bostiwch Jacquip@glanymor.gwynedd.sch.uk. Pris stondin yw £10. Byddai eitemau ar gyfer tombola neu gyfraniad at y raffl yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac hefyd cacennau i'w gwerthu ar y noson.

Cofiwch ddod i gefnogi !